monmouthshire
sir fynwy

# Adroddiad ar Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2025



# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| 1. CYFLWYNIAD | 3 |
| 2. BETH SY'N OFYNNOL GAN Y DDYLETSWYDD? | 4 |
| 3. TREFNIADAU PRESENNOL AR GYFER GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH | 5 |
| 4. DATBLYGIADAU ARFAETHEDIG MEWN TREFNIADAU GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH | 8 |
| 5. CASGLIADAU | 9 |
| ATODIAD 1: CYNLLUN GWEITHREDU PARTNERIAETH GYMDEITHASOL 2025-26 | 10 |

# 1. CYFLWYNIAD

Mae partneriaeth gymdeithasol yn ddull cydweithredol, wedi'i gynllunio i fynd ar drywydd enillion cydfuddiannol yng nghyd-destun datblygu a gweithredu polisïau, neu newid gweithredol. Mae'n gweithio ar yr egwyddor sylfaenol y gall cyflogwyr a gweithwyr gyflawni mwy, yn bennaf trwy eu hundebau llafur, trwy gydweithio mewn ysbryd o gydweithrediad a chydlafurio, i fynd i'r afael â materion economaidd, cymdeithasol a materion eraill yn y gweithle. Ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu partneriaeth gymdeithasol fel dull posibl o fynd i'r afael â heriau yng Nghymru.

Mae llawer o drefniadau partneriaeth gymdeithasol o fewn a rhwng sefydliadau unigol, grwpiau cynrychioliadol ar draws y sector, ac undebau llafur cydnabyddedig, rhai ohonynt â hanes hir. Yn absenoldeb unrhyw sail statudol, mae'r strwythurau partneriaeth presennol hynny wedi datblygu'n wirfoddol ac yn organig dros amser, gan gymryd amrywiaeth o wahanol ddulliau o weithio mewn partneriaeth. Yn 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i sefydlu sail statudol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, gan arwain at Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. O dan Adrannau 15, 16 a 18 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, ar 1af Ebrill 2024, daeth y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol newydd (“y Ddyletswydd”) ar gyrff cyhoeddus i rym yng Nghymru.

Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, bwriad y ddeddfwriaeth yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl yng Nghymru drwy gryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae cynnwys cyflogwyr a gweithwyr mewn trafodaethau allweddol ynghylch gwelliannau i lesiant yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad unigryw a'r arbenigedd a ddygir gan y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau cyhoeddus wrth fynd i'r afael â heriau a rennir a cheisio atebion arloesol. Bwriad y darpariaethau hyn yw hyrwyddo cydweithrediad, cryfhau polisi a gwella canlyniadau, drwy ddeialog rhwng partneriaid cymdeithasol, a gyflawnir mewn partneriaeth gymdeithasol.

Mae'r sector cyhoeddus datganoledig yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru. Mae'n llunio profiad gwaith yn uniongyrchol i'r rhai sy'n gweithio ynddo, a gall hefyd gael dylanwad anuniongyrchol ar draws y sector cyhoeddus a'r economi ehangach trwy arwain trwy esiampl ar ddulliau blaengar o ymdrin â materion y gweithlu. Bydd gallu'r cyrff cyhoeddus datganoledig i gyflawni'r rôl uniongyrchol ac anuniongyrchol honno yn cael ei gryfhau gan y Ddyletswydd.

## 2. BETH SY'N OFYNNOL GAN Y DDYLETSWYDD?

Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn berthnasol i'r pedwar deg wyth o gyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae Cyngor Sir Fynwy yn un ohonynt. Felly, rhaid i Gyngor Sir Fynwy fodloni pedwar gofyniad statudol a fydd yn integreiddio egwyddorion partneriaeth gymdeithasol i'n gweithgareddau ac yn sicrhau bod undebau llafur yn cymryd rhan weithredol mewn prosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig mewn meysydd sy'n effeithio ar y gweithlu..

**Gofyniad 1: Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol**

Rhaid i Gynghorau ymgysylltu mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur cydnabyddedig wrth osod amcanion llesiant (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) a gwneud penderfyniadau strategol arwyddocaol, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar weithwyr neu sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy. Mae'r ymgysylltiad hwn yn gofyn am ymdrechion i geisio consensws neu gyfaddawd gydag undebau llafur, yn enwedig yng nghyfnodau ffurfiannol datblygu polisïau neu wneud penderfyniadau. Rhaid i gynghorau roi digon o wybodaeth ac amser digonol i undebau llafur ystyried cynigion ac ymateb iddynt.

**Gofyniad 2: Rhwymedigaethau Adrodd**

Rhaid i Gynghorau baratoi adroddiad blynyddol yn manylu ar gydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys camau a gymerwyd i ymgysylltu ag undebau llafur mewn prosesau gwneud penderfyniadau perthnasol. Rhaid i'r adroddiad naill ai gael cytundeb undebau llafur cydnabyddedig neu egluro pam na ellid cyrraedd cytundeb. Mae'n ofynnol i Gynghorau gyhoeddi'r adroddiad hwn a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, a all gyhoeddi canllawiau pellach yn seiliedig ar eu cynnwys.

**Gofyniad 3: Dyletswydd Caffael Cyhoeddus**

Disgwylir i Gynghorau sicrhau bod eu prosesau caffael yn cyd-fynd ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg, sy'n cynnwys ymgysylltu ag undebau llafur lle mae penderfyniadau caffael yn effeithio ar safonau llafur. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys sicrhau bod cyflenwyr yn glynu wrth arferion gwaith teg, a thrwy hynny'n hyrwyddo safonau moesegol ac amodau gwaith teg mewn contractau sy'n cynnwys arian cyhoeddus.

**Gofyniad 4: Dilyn Canllawiau Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol**

Gall Gweinidogion Cymru, trwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, gyhoeddi canllawiau ar arferion partneriaeth gymdeithasol, y mae'n rhaid i gynghorau eu hystyried.

**Ceisio Consensws neu Gyfaddawd**

Mae Adran 16(2) o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn nodi sawl gofyniad penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw wrth 'geisio consensws neu gyfaddawd'. Bwriad y gofynion yw sicrhau bod undebau llafur yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn briodol pan fydd y Cyngor yn gosod ei amcanion lles, neu wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch y camau rhesymol y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn nodi *'er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o'i staff yn y broses o osod amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol):*

*(a) ymgynghori â nhw yng nghyfnod ffurfiannol y broses, a*
*(b) eu cynnwys fel arall drwy gydol y broses drwy*

- *(i) darparu digon o wybodaeth i'w galluogi i ystyried yn iawn yr hyn a gynigir, a*
- *(ii) (ii) darparu digon o amser i'w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn a gynigir ac ymateb.*

# 3. TREFNIADAU PRESENNOL AR GYFER GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Mae'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth presennol yng Nghyngor Sir Fynwy yn bennaf drwy faterion gweithlu. Mae dull gweithio mewn partneriaeth eisoes sy'n darparu mwy o gyfleoedd cydweithredol na'r model ymgynghori traddodiadol. Mae'r lefel bresennol o drafodaeth yn eang ei chyrhaeddiad ac yn cynnwys cyfarfodydd undebau llafur rheolaidd a rhyngweithio ag aelodau etholedig.

Mynychodd Pennaeth AD a Chyfarwyddwr Strategol, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cyngor Sir Fynwy, ddigwyddiad Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2024, a roddodd wybodaeth ddefnyddiol ynghylch Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a sicrwydd y gall Cyngor Sir Fynwy eisoes ddangos dull cryf o weithio mewn partneriaeth.

Mae'r trefniadau sydd gan y Cyngor eisoes ar waith, sy'n cyfrannu at y pedwar gofyniad statudol sydd wedi'u nodi isod. Mae'r rhain yn cefnogi sut mae egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn cael eu hintegreiddio i weithgareddau'r Cyngor.

**Gofyniad 1: Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol**

Mae'r ystod o weithgareddau sydd eisoes yn digwydd, lle mae undebau llafur yn cymryd rhan weithredol ac yn ymgysylltu, yn cynnwys:

- Cyfarfodydd Grŵp Cynghori ar y Cyd Chwarterol (sy'n cynnwys aelodau etholedig, swyddogion, gan gynnwys aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, a chynrychiolwyr undebau llafur):
    - Penderfynir ar eitemau a gyflwynir i'r Grŵp Cynghori ar y Cyd trwy gonsensws a chytundeb gan ochr yr undeb llafur a'r cyflogwr.
    - Mae cylch gorchwyl y Grŵp Cynghori ar y Cyd hefyd yn cynnwys ymrwymiad i gael consensws a chytundeb ar bob polisi AD, nad yw'n gyfyngedig i bolisïau cytundebol.
    - Mae'r Grŵp Cynghori ar y Cyd yn rhan o'r adolygiad blynyddol statudol o Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol ac Amcanion Llesiant Cyngor Sir Fynwy.

- Cyfarfodydd anffurfiol misol rhwng swyddogion a swyddogion undebau llafur:
    - Wedi'i gynnal ar gyfer undebau llafur corfforaethol ac addysg, i godi materion ar draws y sefydliad, sicrhau bod llais gweithwyr yn cael ei gynrychioli a'i glywed, ac i ymgynghori ar bynciau o ochr yr undeb llafur a'r cyflogwr.

- Mae trefniadau ymgynghori ffurfiol gydag undebau llafur yn bodoli ar gyfer prosesau gosod cyllideb, cynllunio'r gweithlu a phrosesau ailstrwythuro.

- Gwahoddiad ffurfiol i undebau llafur fynychu'r Panel Gwerthuso Swyddi wythnosol.
- Deialog anffurfiol reolaidd gyda'r Arweinydd/Aelod Cabinet ac undebau llafur.
- Cyfarfodydd anffurfiol rhwng Adnoddau Dynol, Datblygu'r Gweithlu ac undebau llafur ar ffyrdd newydd o weithio/gwella prosesau ar gyfer cydweithwyr a rheolwyr

**Gofyniad 2: Rhwymedigaethau Adrodd**

Mae'r Cyngor hwn wedi llunio'r adroddiad blynyddol hwn, y cyntaf o dan y gofynion hyn, sy'n manylu ar y trefniadau presennol sydd ar waith i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi datblygiadau arfaethedig mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth, fel y cytunwyd ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr undebau llafur, gyda'r nod o gryfhau sut mae'r Cyngor yn cynnwys ac yn ymgysylltu ag undebau llafur ar ystod ehangach o weithgarwch gwneud penderfyniadau.

**Gofyniad 3: Dyletswydd Caffael Cyhoeddus**

Mae gan y Cyngor Strategaeth Gaffael Cymdeithasol Gyfrifol. Mae'r strategaeth yn cynnwys yr amcan i Wella arferion Gwaith Teg, Ecwiti a Diogelu a fabwysiadwyd gan gyflenwyr. Nod hyn yw hwyluso'r Cyngor i gyflawni yn erbyn Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ac egwyddorion y Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi. Cynhyrchir gwerthusiad blynyddol o berfformiad amcanion y strategaeth. Mae asesiad o effeithiolrwydd trefniadau caffael y Cyngor hefyd wedi'i ymgorffori yn adroddiad hunanasesu blynyddol statudol y Cyngor, y mae undebau llafur yn cymryd rhan weithredol ynddo trwy'r Grŵp Cynghori ar y Cyd.

**Gofyniad 4: Ymlyniad i Ganllawiau Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu mecanwaith i'r Cyngor asesu ei drefniadau yn unol â'r gofynion yn y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys ymlyniad i unrhyw Ganllawiau Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol a gyhoeddir yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad blynyddol hefyd yn cael ei ymgorffori yn hunanasesiad blynyddol statudol y Cyngor o'i amcanion lles yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

# 4. DATBLYGIADAU ARFAETHEDIG MEWN TREFNIADAU GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

O dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnwys ac ymgysylltu ag undebau llafur ar gwmpas ehangach o weithgarwch gwneud penderfyniadau sydd y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar y gweill. Yn benodol, fel isafswm, dylid cael consensws a chytundeb ar osod amcanion lles, a dylai cynrychiolwyr undebau llafur gael mwy o ran mewn penderfyniadau strategol sydd â goblygiadau i'r gweithlu neu ddatblygu cynaliadwy.

Mae datblygiadau arfaethedig mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth, fel y cytunwyd arnynt mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr undebau llafur, yn cynnwys:

- Cynrychiolwyr undebau llafur yn cymryd rhan i raddau helaethach yn yr adolygiad blynyddol statudol o Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol ac Amcanion Llesiant Cyngor Sir Fynwy, gyda'r opsiwn o gynnwys datganiad yn yr adroddiad hunanasesu terfynol i'r Cyngor.

- Cynnal briffiau blynyddol gan y Swyddog Adran 151, i bob plaid, ar ragolygon cyllid cyhoeddus, rhagdybiaethau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gwahodd pob plaid i gyflwyno cynigion arbed yn y dyfodol i'w hystyried.

- Cynrychiolwyr undebau llafur yn cymryd rhan/ymgysylltu'n gynnar:

    - unrhyw gynigion arbedion sydd â goblygiadau i'r gweithlu.
    - wrth ddatblygu ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
    - wrth ddatblygu cwestiynau arolwg staff a chamau gweithredu i ymateb i ganfyddiadau.
    - wrth wneud newidiadau i/datblygu trefniadau sefydlu staff corfforaethol.
    - wrth ddatblygu caffael, yn unol â threfniadau partneriaeth Ardal.
    - wrth adolygu'r Cytundeb Amser Cyfleusterau.
    - wrth arwain y broses o gyflwyno'r modiwl hyfforddi 'Partneriaeth Gymdeithasol y Ffordd Gymreig' ar Thinqi (platfform hyfforddi ar-lein), ar draws y sefydliad

- Gwahoddir cynrychiolwyr undebau llafur i fynychu cyfarfod blynyddol i drafod trefniadau partneriaeth gymdeithasol.

# 5. CASGLIADAU

Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu partneriaeth gymdeithasol fel dull posibl o fynd i'r afael â heriau yng Nghymru. Mae gan Gyngor Sir Fynwy eisoes ddull o weithio mewn partneriaeth sy'n darparu mwy o gyfleoedd cydweithredol na'r model ymgynghori traddodiadol.

Er mwyn cynnwys ac ymgysylltu ag undebau llafur ar gwmpas ehangach o weithgarwch gwneud penderfyniadau y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar y gweill, mae Cyngor Sir Fynwy wedi datblygu a chytuno ar gynllun gweithredu partneriaeth gymdeithasol (gweler Atodiad 1), sy'n cwmpasu egwyddorion arweiniol cydweithredu, parch, ymddiriedaeth, llais a chyfranogiad, ac enillion cydfuddiannol, a fydd yn sefydlu dull cyson o gyflawni dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Mae'r Cyngor yn hyderus, trwy gyflawni'r cynllun gweithredu, y bydd manteision gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn cael eu gwireddu i raddau hyd yn oed yn fwy nag y maent ar hyn o bryd, a bydd gwerthoedd y sefydliad o fod yn agored, yn deg, yn hyblyg, gweithio mewn tîm ac yn garedig, oll yn cael eu cryfhau.

**Mae'r adroddiad hwn wedi derbyn cytundeb undebau llafur cydnabyddedig yng Nghyngor Sir Fynwy.**

# ATODIAD 1:
# CYNLLUN GWEITHREDU PARTNERIAETH GYMDEITHASOL 2025-26

| Rhif | Cam gweithredu | Pwy sy'n atebol |
|---|---|---|
| 1 | Cynrychiolwyr undebau llafur yn cymryd rhan i raddau mwy yn yr adolygiad blynyddol statudol o Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol ac Amcanion Llesiant Cyngor Sir Fynwy, gyda'r opsiwn o gynnwys datganiad yn yr adroddiad hunanasesu terfynol i'r Cyngor. | Prif Swyddog: Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau<br>Swyddogion Undebau Llafur |
| 2 | Cynnal briffiau blynyddol gan y Swyddog Adran 151, i bob plaid, ar ragolygon cyllid cyhoeddus, rhagdybiaethau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gwahodd pob plaid i gyflwyno cynigion arbed yn y dyfodol i'w hystyried. | Prif Swyddogion<br>Swyddog Adran 151<br>Swyddogion Undebau Llafur |
| 3 | Cynrychiolwyr undebau llafur yn cael eu cynnwys/ymgysylltu yn gynnar :<br><br>a) unhyw gynigion arbed sydd â goblygiadau i'r gweithlu.<br>b) wrth ddatblygu ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.<br>c) wrth ddatblygu cwestiynau arolwg staff a chamau gweithredu i ymateb i ganfyddiadau.<br>d) wrth wneud newidiadau i/datblygu trefniadau sefydlu staff corfforaethol.<br>e) mewn datblygiadau caffael, yn unol â threfniadau partneriaeth Ardal.<br>f) mewn adolygiad o'r Cytundeb Amser Cyfleusterau.<br>g) wrth arwain y broses o gyflwyno'r modiwl hyfforddi 'Partneriaeth Gymdeithasol y Ffordd Gymreig' ar Thinqi (platfform hyfforddi ar-lein), ar draws y sefydliad. | Prif Swyddog: Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau<br>Swyddog Adran 151<br>Swyddogion Undebau Llafur |
| 4 | Gwahoddir cynrychiolwyr undebau llafur i fynychu cyfarfod blynyddol i drafod trefniadau partneriaeth gymdeithasol . | Prif Swyddog: Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | | Swyddogion Undebau Llafur |